5.170

# Y Ferch Ryfeddol,

NEU HANES

# SARAH JACOB

## LLETHR-NEUADD,

## Yn agos i Bencader,

SWYDD GAERFYRDDIN,

A anwyd y 12eg o Fai, 1857, ond nid ydyw wedi profi un math o fwyd, gwlyb na sych, oddiar y 10fed o Hydref, 1867, sef 18 mis.

---


## GAN HUGH ROBERTS,

(PERERIN MON.)


---

HOLL Gymry De a Gogledd,
  Yn fwynaidd dewch ynghyd,
Cewch hanes gwrthddrych hynod,
  Mae'r geiriau'n wir i gyd,
Sef hanes Sarah Jacob,
  O sir Gaerfyrddin fad,
Mae hon yn gwir ragori
  Ar ferched tref a gwlad.

Mae'n gwybod yr ysgrythyr
  Cyn bod yn ddeuddeg oed,
Llenyddiaeth a barddoniaeth,
  Ni fu ei bath erioed :

Mae hon yn wrthddrych sylw
  Gan bawb o ddynol ryw,
Trwy drefn ddoeth Rhagluniaeth
  Fe'i gwelir heddyw'n fyw.

Ni phrofodd fwyd na diod,
  Na lluniaeth o un lle
O'r degfed dydd o Hydref,
  Ond byw trwy ras y ne',
Un fil wyth cant a thrigain,
  Ac hefyd saith yn llawn,
Ond ar ei gwely cystudd
  Foreuddydd a phrydnawn.

Dechreuad ei hafiechyd
  Oedd dyfod adre'n glaf
O'r ysgol un diwrnod
  Tanbeidiol yn yr haf,
Tri mis bu yno'n gorwedd,
  Heb deimlo un llesâd,
Er ymdrech y meddygon
  A'i thyner fam a'i thad.

Hi gysgodd fis yn gyflawn,
  Heb ddeffro dim un waith,
A'i hyspryd gym'rwyd ymaith
  Trwy'r eangderau maith;
Hi welodd ryfeddodau
  Trwy ryngu bodd ei Duw,
Ond megys breuddwyd ydoedd,
  Ac eto'i chorff yn fyw.

Mynegodd, do, ugeiniau
  O ryfeddodau maith,
A welodd yn y nefoedd,
  Ac hefyd ar ei thaith;
Hi welodd bererinion
  A'u gynau gwynion glân,

X20321 4427

Achubodd Duw trwy gariad
Rhag mynd i uffern dân.

Rhyfeddod ydyw gweled
Yr eneth hon yn fyw,
Ond beth sy'n fwy rhyfeddod
Na dyfnion droion Duw?
Rhyfeddod fydd i Sarah
Gael dysgu'r nefol gân,
'Nol gadael byd o gystudd,
A'i gwisg yn wyn a glân.

Mae'i llais yn gryf ac eglur,
A'i gruddiau'n hynod hardd,
Fel lili'n mysg mieri,
Neu rosyn yn yr ardd;
A'i hoffder ydyw gweddi,
Neu ddarllen mewn rhyw fan,
Ond nis gall droi'r dalenau,
Mae'i breichiau bach ry wan

A chwithau blant 'r ysgolion
Sabathol trwy'r holl wlad,
Gwrandewch ar eich athrawon,
A'ch tyner fam a'ch tad;
A dysgwch oll eich gwersi
Tra byddoch yma'n iach,
Ac hefyd yr ysgrythyr
Fel dysgodd Sarah fach.

A chwithau ie'nctyd Cymru
Gwrandewch ar hyn o gân,
Trysorwch hi'n eich meddwl,
Gwnaiff les yn ddiwahan;
A chofiwch eich Creawdwr
Cyn daw y dyddiau blin,
Gan gofio Sarah Jacob
Sy'n destun i bob dyn.

A chwithau yr henafgwyr
  Sydd oll a'ch gwallt yn wyn,
O cofiwch am yr aberth
  Fu ar Galfaria fryn;
Mae ganddo falm o Gilead
  I wneyd y claf yn iach,
Fel mae â'i ofal tadol
  Yn nghystudd Sarah fach.

Ffarwel yn awr, gyfeillion,
  Yn fawrion ac yn fân,
'Rwyf wedi troi yr hanes
  Yn gywir oll ar gân;
Ond 'nawr 'rwy'n rhoddi i chwi
  Ddau benill ola'r gwaith,
A wnaed gan Sarah Jacob
  Pan yn ei chystudd maith:

---

## AR FARWOLAETH MERCH FECHAN

---

Aeth geneth fechan adref,
  Mae heddyw gydag Ef,
Yn awr yn canu'n beraidd
  Ar delyn aur y nef;
Ac er mor anwyl ydoedd
  Gan ei rhieni cun,
Anfonodd Crist am dani
  Yn berlyn iddo'i hun.

Gadawodd fyd o ofid,
  A'i demtesiynau 'gyd,
Gadawodd holl helyntion
  Trafferthus hyn o fyd;
Mae 'nawr o gylch yr orsedd,
  Yn nghwmni Iesu glân,
A thelyn yn ei dwylaw,
  Yn chwarae'r nefol gân.'

---